CYNGOR TREF RHUTHUN
Gwobr Dinesydd Da'r Flwyddyn, Rhuthun / Gwobr Person Ifanc y Flwyddyn, Rhuthun

Meini prawf

i) Ni all Cynghorwyr Tref neu Swyddog y Cyngor enwebu unigolyn ar gyfer y wobr na derbyn y wobr.

ii) Gellir cyflwyno'r wobr i unigolion **sy'n byw yn Rhuthun yn unig**.

iii) Ni all yr enwebydd na'r eilydd fod yn bartner nac yn berthynas i'r ymgeisydd.

iv) Rhaid i'r ymgeisydd gael ei enwebu am waith gwirfoddol yn y dref.

v) Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ansawdd bywyd yn Rhuthun.

vi) Bydd angen dychwelyd ffurflenni enwebu (i'w cael o swyddfa'r Cyngor Tref neu ar y wefan) i swyddfa'r Cyngor Tref erbyn **31 Mawrth 2017**.

vii) Gall fod yn ofynnol i'r enwebydd **neu'r** eilydd ddod i gyfarfod o Bwyllgor Gwobrwyo'r Dinesydd Da a siarad ar ran eu hymgeisydd, os bydd angen.

viii) Wedyn bydd panel yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Gwobrwyo'r Dinesydd Da yn gwneud argymhellion i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

ix) Nid oes cyfyngiad ar nifer y gwobrau ac nid oes rhaid gwobrwyo.

x) Bydd y wobr yn cynnwys Tystysgrif A4 ar bapur ansawdd uchel wedi ei fframio a £100 tuag at grŵp / prosiect / achos / elusen ddewisedig yr ymgeisydd.

xi) Bydd y gwobrau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref ym mis Mai.

Ionawr 2017